



Polisi Urddas a Pharch

2 Mawrth 2023

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 6 Chwefror, pan wnaethoch holi ynghylch:

Under the Freedom of Information Act please disclose a report, produced last year for the Senedd commission, reviewing the Senedd's dignity and respect policy.

Mae ein hymateb i'w gael isod.

Mae'r polisi urddas a pharch wrthi'n cael ei adolygu a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ar **wefan y Senedd** yn ddiweddarach eleni Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi bryd hynny hefyd.

Gan y bydd ar gael yn y dyfodol, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae hyn yn eithrio gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler **yr atodiad**.

Yn gywir

Buddug Saer
Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnlol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnlol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Atodiad

Adran 22

Mae Adran 22 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn nodi:

- (1) *Mae gwybodaeth wedi'i heithrio*
 - (a) *os yw'r wybodaeth yn cael ei chadw gan yr awdurdod cyhoeddus gyda'r bwriad o'i chyhoeddi, gan yr awdurdod neu gan berson arall, rywbryd yn y dyfodol (p'un a yw'r dyddiad wedi'i bennu ai peidio);*
 - (b) *os oedd y wybodaeth yn cael ei chadw eisoes gyda'r bwriad o'i chyhoeddi pan wnaed y cais am ei gweld, a*
 - (c) *os yw'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i beidio â rhyddhau'r wybodaeth tan y dyddiad a nodir ym mharagraff (a).*

Mae adran 22 ar gael os yw'r awdurdod cyhoeddus dan sylw yn cadw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ac yn bwriadu ei chyhoeddi ar ryw ddyddiad yn y dyfodol. Fodd bynnag, o dan yr holl amgylchiadau, rhaid cael achos rhesymol i beidio â rhyddhau'r wybodaeth tan y dyddiad y bwriedir ei chyhoeddi.

Rydym o'r farn ei bod yn rhesymol peidio â rhyddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar hyn o bryd. Disgwylir i'r polisi urddas a pharch diwygiedig, a'r adroddiad adolygu yr ydych wedi gofyn amdano, gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Felly, rydym o'r farn ei bod yn deg ac yn synhwyrol i gyhoeddi'r dogfennau hyn pan fyddant wedi'u cwblhau, yn hytrach na gwneud cyhoeddiad cynnar cyn i'r adolygiad polisi gael ei gwblhau. Bydd cyhoeddi fel y bwriadwyd yn caniatáu adlewyrchiad cywir o'r camau a gymerwyd yng ngoleuni'r adroddiad ac yn osgoi unrhyw risg y bydd yr adolygiad polisi yn cael ei lesteirio yn sgil cyhoeddi'r wybodaeth gysylltiedig yn gynnar. Dylai'r cyhoeddiad arfaethedig ganiatáu ar gyfer tryloywder ac atebolrwydd priodol.

Mae Adran 22 yn eithriad cymwys. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed os yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn ymwneud ag adran 22, bod angen ystyried "prawf budd y cyhoedd". Mae'r prawf hwn yn ei gwneud yn ofynnol inni ystyried a yw budd y cyhoedd sydd ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth ar y cam cynharach hwn yn gorbwyso'r budd cyhoeddus sydd ynghlwm wrth beidio â datgelu'r wybodaeth.

Mae budd cyhoeddus cyffredinol mewn hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas ag awdurdodau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r gwaith o adolygu'r polisi yn mynd rhagddo ac rydym o'r farn mai'r ffordd orau o sicrhau atebolrwydd yw caniatáu cymhariaeth o'r adroddiad adolygu ochr yn ochr â'r camau a gymerwyd i adolygu'r polisi urddas a pharch. Hynny yw, budd cyhoeddi fel y bwriadwyd yn rhoi darlun llawnach pan fyddwn ni, fel sefydliad cyhoeddus, yn cael ein dwyn i gyfrif.

Mae hefyd er budd y cyhoedd i ganiatáu lle i Gomisiwn y Senedd gynnal yr adolygiad hwn, yn seiliedig ar wybodaeth y mae wedi'i chael er mwyn diogelu ansawdd yr adolygiad hwnnw. Byddai caniatáu i'r adroddiad drafft gael ei gyhoeddi fel y mae ar hyn o bryd yn difrio'r gwaith sy'n ymwneud â'i gwblhau.

Felly, ein barn ni yw bod y dadleuon budd y cyhoedd o blaid cynnal yr eithriad yn gorbwyso budd y cyhoedd sydd ynghlwm wrth ddatgelu'n gynnar.